**Mid 03-01(min)**

**Cyfarfod Pwyllgor Rhanbarth y Canolbarth**

**Dyddiad:** Dydd Gwener 13eg Gorffennaf 2001

**Amser:** 10.30am

**Lleoliad:** Neuadd y Gymuned, Llanidloes

**Yn bresennol:**

| | | |
|---|---|---|
| **Cynog Dafis, Cadeirydd Dros Dro** | Plaid Cymru | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| **Glyn Davies** | Ceidwadwyr | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| **Delyth Evans** | Llafur | Canolbarth a Gorllewin Cymru |

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor:**

| | |
|---|---|
| **Julia Annand** | Clerc y Pwyllgor |
| **Stephen Thomas** | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |
| **Sian Wilkins** | Dirprwy Glerc, Y Pwyllgor Datblygu Economaidd |
| **Judith Yorston** | Cefnogaeth o'r Ysgrifenyddiaeth |

**Ymddiheuriadau:**

| | | |
|---|---|---|
| **Elin Jones, Cadeirydd** | Plaid Cymru | Ceredigion |
| **Kirsty Williams** | Democratiaid Rhyddfrydol | Brycheiniog a Sir Faesyfed |

| | | |
|---|---|---|
| **Mick Bates** | Democratiaid Rhyddfrydol | Sir Drefaldwyn |
| **Nick Bourne** | Ceidwadwyr | Canolbarth a Gorllewin Cymru |

**Dirprwyon:** Nid oedd dirprwyon.

**Datgan Buddiannau:** Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

**Ethol cadeirydd dros dro**

Yn absenoldeb y Cadeirydd, Elin Jones, etholodd y Pwyllgor Cynog Dafis i eistedd fel cadeirydd dros dro o dan Reol Sefydlog 8.17.

**Eitem 1 ar yr Agenda: Adroddiad Blynyddol Pwyllgor Rhanbarth y Canolbarth a'i Flaenraglen Waith**

Cytunodd y Pwyllgor ar destun yr adroddiad blynyddol ffeithiol (papur 1a) a fyddai bellach yn cael ei drafod mewn cyfarfod llawn yn yr hydref.

Cytunodd yr aelodau hefyd ar y rhaglen waith ar gyfer y ddau gyfarfod nesaf fel y'i nodwyd ym mhapur 1b. Fodd bynnag, dywedodd Glyn Davies fod angen i'r Pwyllgor gadw llygad manwl ar faterion yn ymwneud ag adfywio'r economi gwledig cyn trafodaeth bosibl yn y Pwyllgor y gwanwyn nesaf.

**Eitem 2: Sesiwn drafod ar faterion ynni adnewyddadwy**

Eglurodd y Cadeirydd dros dro mai diben y cyfarfod hwn oedd canolbwyntio ar ynni gwynt ac agweddau cadwraeth ynni adnewyddadwy; nid oedd y Pwyllgor yn edrych yn benodol ar yr ochr economaidd er y caiff gwybodaeth a ddeillia o'r cyfarfod heddiw ei throsglwyddo i'r Pwyllgor Datblygu Economaidd (y mae Glyn Davies AC yn aelod ohono), sydd i fod i ddechrau ar adolygiad o ynni adnewyddadwy yn yr hydref.

Sefydliad:

**Cyngor Sir Ceredigion**

Cynrychiolwyr:

Y Cyng Alun Lloyd-Jones

Tim Ball

Gwnaethpwyd y pwyntiau canlynol yn y cyflwyniad:

- Roedd angen gwneud rôl y llywodraeth ganolog, y Cynulliad ac awdurdodau lleol o safbwynt darparu ynni yn fwy eglur.
- Roedd Mr Ball yn cefnogi egwyddor is-reolaeth yn gryf h.y. bod polisi yn cael ei bennu ar y lefel agosaf i'r man y mae'n effeithio arno.
- Mynegodd Mr Ball ei syndod hefyd fod yr Adran Diwydiant a Masnach yn gyfrifol am gymeradwyo ceisiadau am ffermydd gwynt mor fach â 50mgw.
- O ran ynni gwynt ar y tir, bydd pennu targedau o gymorth i ddatblygwyr ac yn rhoi ffocws i'r ddadl ond gall arwain at ddrwgdeimlad yn lleol.
- Gall polisïau rhagweithiol i chwilio am wynt darfu ar y farchnad eiddo.
- Rhaid gwahaniaethu'n glir rhwng cyngor technegol y Cynulliad a'i ganllawiau polisi ffurfiol.
- Cafodd y cynigion ar gyfer fframwaith cynllunio gofodol groeso eang, ynghyd â'r cynigion i adolygu Nodyn Cyngor Technegol 8.
- Dylai polisïau sy'n ymwneud ag ynni gwynt ar y môr fod yn gytbwys a byddai angen iddynt gymryd Ardaloedd Arbennig Cadwraeth i ystyriaeth yng Nghymru.
- Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi gwneud llawer o waith ym maes biomas ac yn ei ystyried yn ffynhonnell fuddiol o ber a gynhyrchir yn lleol.
- Mae'r Cyngor yn ystyried cyflwyno Biomas i gyflenwi per i'w brif bencadlys yn Aberaeron ac at ddefnydd ysgolion a'r gymuned.
- O ran per y llanw, dywedodd Mr Ball y byddai'n synnu os nad oedd ymchwil yn mynd rhagddo ar hyn o bryd, yn enwedig o gofio bod yna Ardaloedd Arbennig Cadwraeth o amgylch arfordir Cymru.
- Gallai'r rheoliadau adeiladu a chynllunio presennol wneud llawer mwy i annog defnyddio per solar.

- Dywedodd y Cynghorydd Alun Lloyd-Jones fod Cyngor Sir Ceredigion yn gobeithio ymestyn y clybiau solar a ffurfiwyd mewn partneriaeth ag Ymlaen, ar gyfer mentrau bychain a chanolig sy'n ymwneud â'r diwydiant twristiaeth. Ychwanegodd fod angen edrych o ddifrif ar dargedau ynni adnewyddadwy, o ran ffermydd gwynt. Petai yna dargedau ystyrlon eisoes ar waith, roedd o'r farn y byddai Ceredigion wedi mynd y tu hwnt i'r targedau hynny yn ôl pob tebyg. Roedd angen edrych o ddifrif ar bennu targedau oherwydd yn ei dyb ef, roedd rhai o'r awdurdodau lleol yn ysgwyddo mwy o'r baich nag eraill.

Sefydliad:

**Cyngor Sir Powys**

Cynrychiolydd:

Andy Bull, Pennaeth Polisi Amgylcheddol

Roedd prif bwyntiau'r cyflwyniad fel a ganlyn:

- Mae'r ddadl yngln â datblygiadau ynni adnewyddadwy wedi canolbwyntio'n bennaf ar gynlluniau graddfa fawr a thrydan. Fodd bynnag, mae yna bosibiliadau enfawr i ddefnyddio ynni adnewyddadwy ar lefel ddomestig. Gall y Canolbarth ddangos y ffordd ymlaen i weddill y DU ar y lefel ddomestig.
- Mae yna gamargraff cyffredin fod gwresogi dr ag ynni solar yn aneffeithiol yng Nghymru oherwydd yr hinsawdd. Serch hynny, bydd system fodern dda yn gwneud cyfraniad sylweddol tuag at ofynion gwresogi dr. Sefydlwyd "Clybiau Solar" yn effeithiol iawn yng Ngheredigion a Dyffryn Dyfi a'r bwriad yw ehangu'r cysyniad hwn i weddill Powys.
- O ran cynhyrchu trydan ag ynni solar, gellir cynhyrchu trydan drwy gelloedd neu fodiwlau ffotofoltaidd (PVs). Bydd gan ddatblygiad newydd o eiddo Cymdeithas Tai ym Machynlleth do PV a bydd yna gryn lawer o PV yn Nyffryn Dyfi.
- Dylai'r Cyngor ystyried yr opsiwn PV bob amser mewn amgylchiadau lle bo angen cyflenwad newydd at ddefnydd nad yw'n drwm ar ber. Bydd pris systemau PV yn parhau i ostwng wrth i'r farchnad ddod yn ddigon cryf i gyfiawnhau cyfleusterau gweithgynhyrchu modern sy'n swmpgynhyrchu.
- Hanfod gwresogi gofod yn oddefol o ynni solar yw dylunio adeiladau yn dda. Mae'n hollbwysig fod ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r defnydd o wydr, ei arwynebedd a'i safle tra'n dylunio adeiladau.
- Roedd per dr ar raddfa fach yn nodwedd gyffredin yng nghefn gwlad Cymru nes i'r Grid Cenedlaethol annog rhoi'r gorau i'r rhan fwyaf o'r safleoedd. Bu Partneriaeth Eco Ddyffryn Dyfi yn gweithio ar ddatblygu cynlluniau dr ar raddfa fach, sy'n eiddo i'r gymuned, ers tair blynedd ond nid yw'r prosiect cyntaf wedi ei gwblhau eto. Bu'r broses yn arafach na'r disgwyl ac mae ystyriaethau yngln â'r drwydded echdynnu wedi chwarae rhan o bwys yn y broses.
- Gall generaduron tyrbinau gwynt weithredu ar raddfa fach iawn a phrin y byddir yn sylwi arnynt yn y tirlun ehangach. Wedi'u cyfuno â systemau PV, gallant gynnig atebion da lle nad oes angen llawer o ber mewn lleoliadau nad ydynt yn rhan o'r grid.
- Cyn belled ag y mae biomas yn bod, er bod yna gyfleoedd i ddefnyddio amrywiaeth o gynhyrchion biomas ar raddfa fawr a bach, y cyfle pennaf o bell ffordd yng Nghymru yw defnyddio'r adnoddau sy'n bodoli'n barod mewn coedwigoedd pren caled a phren meddal.
- Mae'n bwysig ystyried mater ynni mewn ffordd gyfannol. Nid yw canolbwyntio ar

gynhyrchu ynni yn unig yn mynd i arwain at y math o newidiadau sy'n angenrheidiol os yw cymdeithas i roi sylw difrifol i faterion yn ymwneud â'r hinsawdd yn newid.
- Mae Cyngor Sir Powys yn argyhoeddedig fod i ynni adnewyddadwy botensial enfawr i economi'r Canolbarth. Mae'r adnoddau yma ynghyd â phoblogaeth sy'n barod i fanteisio ar ynni adnewyddadwy, ond mae angen rhagor o help arno. Gallai Asiantaeth yr Amgylchedd – Cymru helpu o safbwynt per dr.

Gwnaethpwyd y sylwadau isod yn ystod y sesiwn holi ac ateb:

- Teimlai Mr Bull fod codi tai â phaneli solar yn mynd yn rhy bell ar hyn o bryd, ond dylai'r rheoliadau cynllunio ganiatáu ar gyfer codi toeon sy'n wynebu'r de.
- Amcan pennaf Cyngor Sir Ceredigion oedd hybu defnydd effeithlon o ynni ac, wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio, bydd angen i'r aelodau benderfynu a yw'r cais yn effeithlon o safbwynt ynni.

Sefydliad:

**Cyngor Cefn Gwlad Cymru**

Cynrychiolwyr:

John Taylor

Dr Peter Minto

Gwnaethpwyd y pwyntiau isod yn ystod y drafodaeth:

Dywedodd Mr Taylor fod newidiadau yn yr hinsawdd yn effeithio ar gylch gorchwyl y Cyngor Cefn Gwlad a bod gan y corff gyfrifoldeb am rywogaethau a chynefinoedd sy'n sensitif i newidiadau amgylcheddol. Cyfeiriodd at Lili'r Wyddfa fel enghraifft o rywogaeth a fydd yn diflannu os bydd yr hinsawdd yn para i newid.

Roedd prif bwyntiau ei gyflwyniad fel a ganlyn:

- Mae'r moroedd o amgylch Cymru yn bwysig iawn ac mae yna lawer iawn o Ardaloedd Arbennig Cadwraeth yn y moroedd hyn.
- Mae yna gamddealltwriaeth dybryd yngln â newidiadau yn yr hinsawdd.
- Roedd y Cyngor Cefn Gwlad yn ystyried delwedd 'bocs siocled' tirlun Cymru yn ased i'r wlad ac yn un y dylid ei chadw. Dangosai'r gostyngiad yn nifer yr ymwelwyr â Chymru yn sgîl clwy'r Traed a'r Genau i ba raddau yr oedd pobl yn dod i Gymru i ymweld â chefn gwlad. Mae'r tirlun yn ffynhonnell incwm o bwys i filoedd o fusnesau yng Nghymru.
- Ar 17 Gorffennaf byddai'r Cyngor Cefn Gwlad yn cyhoeddi adroddiad ar gyfer Aelodau'r

Cynulliad sy'n ceisio amcangyfrif gwerth yr economi amgylcheddol ac mae'r sector hwn wedi dangos twf cyson.

- Ar fater ffermydd gwynt, dywedodd Mr Taylor fod angen cyd-destun strategol cenedlaethol ar Gymru er mwyn penderfynu ar strategaethau unigol. Dywedodd fod y ddadl yn aml yn cael ei rhannu i ddwy ochr, y NIMBYs yn erbyn y Datblygwyr, a bod yna angen gwirioneddol i ddatblygu'r ddadl o fewn cyd-destun strategol, yn hytrach na thrin pob cynnig fel achos prawf.
- Roedd y Cyngor Cefn Gwlad am sicrhau nad oedd datblygiadau ar y môr yn niweidio'r morluniau bregus sy'n bodoli ar hyn o bryd.

Gwnaethpwyd y sylwadau canlynol mewn sesiwn holi ac ateb.

- Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd gan Cynog Dafis yngln â thargedau ynni adnewyddadwy, tanlinellodd Mr Taylor bwysigrwydd defnyddio rheolaeth ynni i ostwng y galw am ynni. Dywedodd y byddai ystod o bolisïau yn help i wireddu'r gostyngiad hwn.

Sefydliad:

**British Wind Energy**

Cynrychiolydd:

Peter Hinson

Gwnaethpwyd y pwyntiau canlynol yn y cyflwyniad:

- Mae gofyn cael gostyngiad o 60% yn y defnydd o danwydd ffosil er mwyn sefydlogi'r newidiadau sy'n digwydd i'r hinsawdd ar hyn o bryd. Mae'r ynni a ddefnyddir ar hyn o bryd yn 3 tunnell fetrig o olew y flwyddyn y pen.
- Per gwynt yw'r ffynhonnell fwyaf sy'n cyfrannu ynni adnewyddadwy ym Mhrydain. Yr Almaen sy'n defnyddio'r mwyaf o ber gwynt yn Ewrop gyda'r gallu ar hyn o bryd i gynhyrchu 6,500 megawat. Mae Sbaen a Denmarc ill dwy yn cynhyrchu 2,500 megawat a Phrydain yn cynhyrchu 213 megawat.
- Yn Nenmarc a'r Almaen, mae yna 20,000 o swyddi sy'n ymwneud yn uniongyrchol a gosod a chynhyrchu offer per gwynt.
- Mae BWEA yn honni y gallai Cymru gyfrannu 8% o ynni gwynt Prydain, sy'n cyfateb i 190 o dyrbinau mawr yn cynhyrchu 219 megawat.
- Cafodd 18 ardal ei chyhoeddi gan yr Adran Masnach a Diwydiant yn safleoedd posibl ar gyfer ffermydd gwynt ar y môr. Mae tair o'r rhain oddi ar arfordir Cymru yng Ngogledd Hoyle, Gwastadeddau'r Rhyl a thraeth Scarweather. Gallai'r broses gydsynio ar gyfer y

cynlluniau hyn gymryd amser hir.

- O safbwynt agweddau tuag at ynni adnewyddadwy, dywedodd Mr Hinson fod y llywodraeth ganolog wedi rhoi cefnogaeth gref ond mai amrywiol yw'r adroddiadau yn y cyfryngau.
- Hoffai BWEA weld y Cynulliad Cenedlaethol yn gosod targed uchelgeisiol ar gyfer defnyddio ynni gwynt ac yn ystyried defnyddio fformat yr Alban yng nghyswllt defnyddio ynni a gwneud penderfyniadau rhanbarthol.

Sefydliad:

**Canolfan y Dechnoleg Amgen**

Cynrychiolydd:

Dr Ian Taylor, Cyd-drefnydd Ymgynghorol

Dechreuodd Dr Taylor ei gyflwyniad drwy roi rhywfaint o gefndir am y Ganolfan. Mae'n un o atyniadau twristiaeth pennaf y Canolbarth a hi yw man geni busnesau amgylcheddol eraill megis Dulas, Ecogen ac Aber Instruments. Gwnaethpwyd y sylwadau canlynol yn y cyflwyniad:

- Cred Dr Taylor fod yr Astudiaeth Strategol ar gyfer y Cynulliad yn rhy geidwadol ac y dylai'r Cynulliad fod yn fwy uchelgeisiol.
- Mae'r cynlluniau am ffermydd gwynt ar y môr yng ngweddill Ewrop ar raddfa fwy na'r rheini ym Mhrydain er mai'r môr yw adnodd mwyaf Prydain. Mae'r Ganolfan o blaid ynni gwynt ar y môr.
- Cynhaliwyd astudiaeth dichonoldeb gan y Ganolfan yn ddiweddar ar ran Cyngor Gwynedd i botensial tai ecolegol.
- O safbwynt ynni biomas, cred y Ganolfan nad yw adnoddau coed Cymru yn cael eu defnyddio i'w llawn botensial oherwydd gallai'r gweddillion o ddefnydd adeiladu gael eu defnyddio ar gyfer biomas.
- Er nad yw lefelau ynni'r tonnau yng Nghymru mor uchel ag oddi ar Arfordir Gorllewin yr Alban, mae'r moroedd oddi ar dde orllewin Cymru yn dda. Cyfeiriwyd at Aberdaugleddau fel lleoliad da ar gyfer prosiectau ynni adnewyddadwy morol i'r dyfodol.
- I gloi, anogodd Dr Taylor y Cynulliad i feddwl am ynni adnewyddadwy ar raddfa fwy ac i fod yn fwy uchelgeisiol gyda'i dargedau.

Gwnaethpwyd y pwyntiau canlynol mewn sesiwn holi ac ateb:

- Mewn ymateb i gwestiwn Delyth Evans yngln â pha un y byddid yn ei ffafrio – ai ynni gwynt ar y môr ynteu ar y tir? – dywedodd Dr Taylor a Peter Higson ill dau mai

cydbwysedd rhwng y ddwy ffynhonnell ynni fyddai orau.

- Cytunai Dr Taylor â barn Glyn Davies fod y ddadl yngln ag ynni adnewyddadwy yn cael ei hosgoi yn aml a bod hynny wedi arwain at ohirio prosiectau. Dywedodd fod yna gyfrifoldeb ar ystod o gyrff i fod yn fwy cadarnhaol yngln â mater ynni adnewyddadwy. Dywedodd Peter Hinson fod angen arweinyddiaeth gref a lefel uwch o ddealltwriaeth yngln â chynlluniau ar gyfer y dyfodol.
- Holodd Cynog Dafis a oedd targedau cenedlaethol Asiantaeth yr Amgylchedd o ran defnyddio ynni gwynt yn realistig, digonol a chyraeddadwy. Atebodd Peter Hinson eu bod yn ymddangos yn gyraeddadwy a'u bod yn sylfaen dda ar gyfer dadl. Teimlai Dr Taylor y dylai'r targedau fod yn fwy uchelgeisiol.

Sefydliad:

**Asiantaeth yr Amgylchedd**

Cynrychiolydd:

Peter Wilkinson

Gwnaethpwyd y pwyntiau canlynol yn y cyflwyniad:

- Rôl bennaf yr Asiantaeth ar hyn o bryd yng nghyswllt ynni yw rheoleiddio effaith amgylcheddol safleoedd neu gyfleusterau unigol, er nad dyna ei hunig rôl. Mae'n rheoleiddio gweithfeydd tanio mawr, llosgyddion, gorsafoedd per niwclear a gorsafoedd trydan dr o safbwynt eu per dr. Cyfyngir pwerau'r Asiantaeth i sicrhau bod y gorsafoedd cynhyrchu hyn yn unigol yn cadw at y terfynau a'r egwyddorion a nodwyd mewn deddfwriaeth.
- Yng nghyswllt technegau adnewyddadwy megis ffermydd gwynt a thechnegau llanw a thonnau, ymgynghorol yn unig yw pwerau'r Asiantaeth mewn perthynas â cheisiadau cynllunio.
- Y pwrpas wrth wraidd dyletswyddau rheoleiddio'r Asiantaeth yw gwarchod yr amgylchedd ac atal niwed. Gellir cyflawni hyn orau yng nghyswllt cynhyrchu ynni drwy gymryd cam sylweddol tuag at ffurfiau ynni adnewyddadwy.
- Nid yw'r Asiantaeth yn ystyried bod nwy o gladdfeydd sbwriel nac ynni o wastraff dinesig yn dod o fewn y diffiniad o ffynhonnell ynni adnewyddadwy.
- Cred yr Asiantaeth fod i ynni adnewyddadwy y potensial i ddarparu ynni gwirioneddol gynaliadwy i gymdeithas, ac y gellir osgoi unrhyw effaith negyddol bosibl drwy fynd ati i ehangu ynni adnewyddadwy mewn modd a reolir yn dda sy'n sicrhau bod cynlluniau ynni adnewyddadwy yn cael eu lleoli a'u gweithredu yn sensitif.
- Mae datblygu ynni adnewyddadwy yn golygu cynaeafu'r llifoedd egni naturiol yn yr

amgylchedd sy'n wasgarog iawn o'u cymharu â dwysedd uchel yr egni sydd wedi'i gynnwys mewn tanwydd ffosil.
- Bydd datblygu ynni adnewyddadwy yn golygu y bydd yn rhaid ystyried sut ac ymhle y mae trydan yn cael ei gynhyrchu, ynghyd â'r costau amgylcheddol a chymdeithasol cyfatebol.
- Yr effaith amgylcheddol a achosir gan ynni adnewyddadwy sydd yn ôl pob golwg yn peri'r pryder mwyaf yw'r effaith weledol ar y tirlun. Mae hyn yn arbennig o wir am dyrbinau gwynt ar y tir sydd fel arall yn garedig i'r amgylchedd wrth iddynt weithio.
- Nid yw ffermydd gwynt yn effeithio ar natur na defnydd tir i'r un graddau â llawer o fathau eraill o ddatblygu.
- Yng nghyswllt ffermydd gwynt ar y môr, mae'r Asiantaeth wedi argymell sefydlu Asiantaeth Ynni Cynaliadwy i Gymru i ddarparu gwasanaeth cynghori er mwyn hwyluso ceisiadau, hybu partneriaethau, helpu grwpiau cymuned lleol a chreu hinsawdd y gall ynni cynaliadwy ffynnu ynddi.
- Mae'r Asiantaeth yn cefnogi targed Llywodraeth y DU a'r Cynulliad i gyflenwi 10% o drydan y DU o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2010 ac yn cydnabod mai ynni gwynt, cnydau ynni a chynhyrchion coedwigaeth fydd yr adnoddau adnewyddadwy pwysicaf er mwyn cyrraedd y targed 10%.

Sefydliad:

**Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig**

Cynrychiolydd:

Merfyn Williams

Gwnaethpwyd y pwyntiau canlynol yn y cyflwyniad:

- Mae'r Ymgyrch yn llwyr gefnogi pwyslais y Cynulliad ar ddatblygu Ynni Cynaliadwy (YC) ac yn croesawu'r gwaith ymchwil sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd a fydd yn gosod seiliau cydnabyddedig ar gyfer y dyfodol.
- Mae'n fater o siom nad yw nifer wedi cael y sylw y maent yn ei haeddu yn nhermau Ymchwil a Datblygu. Dylid unioni'r anghydbwysedd hwn fel mater o flaenoriaeth.
- Mae technolegau YC yn ddatganoledig ac nid oes gwell enghraifft o hyn nag ynni solar. Mae technoleg celloedd tanwydd yn faes arall nad yw wedi cael y sylw y mae yn ei haeddu.
- Mae i fiomas botensial ond nid drwy ei ddefnyddio mewn gweithfeydd mawr fel a ddangoswyd gan yr achos yn y Bontnewydd ar Wy.
- Ar wahân i'r haul, daw'r potensial mwyaf ar gyfer YC o ddr, a grymoedd tonnau a llanw y môr aflonydd yn arbennig. Mae yna gyfleoedd aruthrol i harneisio YC rhagweladwy ar raddfa enfawr yma, ond mae angen buddsoddiad sylweddol.

- Gyda’r holl botensial wrth law, nid yw'r Ymgyrch yn cytuno â chodi gorsafoedd ynni gwynt ar raddfa eang ar ucheldiroedd ac arfordir Cymru. Mae'r tir a ddefnyddir yn nhermau effaith weledol peiriannau sy'n symud yn sylweddol a, chyda mwy ohonynt yn ymddangos, mae'r effaith eisoes yn un gronnus dros ardaloedd eang iawn.
- Mae yna wrthdaro rhwng y rhaglen bresennol o ddatblygu ynni gwynt a chadw asedau amgylcheddol ac economaidd Cymru; cydnabuwyd hynny gan Fwrdd Croeso Cymru.
- Byddai canolbwyntio, a hynny heb gyfiawnhad, ar un math o YC yn golygu bod y tirluniau sydd wedi eu niweidio'n barod mewn rhannau o'r Canolbarth yn ymestyn ar draws ardaloedd enfawr, gan droi'r wlad yn ffatri wynt fawr.
- O dan arweiniad y Cynulliad, gallwn greu gwlad a fydd yn ddigon aeddfed i gynnwys ansawdd ei harddwch yn ei hafaliad amgylcheddol. Byddai hynny ynddo'i hun yn gyfraniad o bwys o Gymru tuag at ystyriaethau cynaliadwydedd byd-eang.

Gwnaethpwyd y pwyntiau canlynol yn y sesiwn holi ac ateb a ddilynodd:

- Mewn ymateb i her gan Glyn Davies fod Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig yn gwrthwynebu'r rhan fwyaf o ddatblygiadau, dywedodd Mr Williams nad oedd hynny'n wir a bod egwyddorion y sefydliad wedi aros yr un fath ers ei sefydlu yn 1928. Mae'r Ymgyrch am greu cytgord rhwng pobl ac amgylchedd y Canolbarth.
- Dywedodd Mr Wilkinson nad oedd Asiantaeth yr Amgylchedd yn erbyn technolegau amgen, ond nad oedd llawer ohonynt ond yn cael eu datblygu o hyd ac nad oeddynt eto wedi cyrraedd sefyllfa lle gellid eu defnyddio ar raddfa eang. Mae dyluniad y tyrbinau yn cyfyngu ar botensial ynni gwynt ac mae yna beryglon o roi gormod o bwyslais ar botensial ynni gwynt.

Daeth y Cadeirydd â'r sesiwn i ben drwy ddweud bod yna deimlad cyffredinol y dylid datblygu Strategaeth Ynni genedlaethol ac y dylid gosod targedau priodol.

**<u>Eitem 3: Cyflwyniadau Cyhoeddus</u>**

Mr Martin Wright

Gwnaethpwyd y pwyntiau canlynol yn y cyflwyniad:

- Nid dewis syml rhwng ynni gwynt ac ynni niwclear fel ffynonellau ynni sy'n ein hwynebu.
- Pwysleisiodd Mr Wright nad oedd yn erbyn ynni adnewyddadwy, ond gwrthwynebai orchuddio'r tirlun mewn ffermydd gwynt, sy'n mynd y tu hwnt i fwriadau'r rheoliadau cynllunio.
- Roed yna ffyrdd eraill o ddiwallu anghenion ynni'r wlad ac mae yna gonsensws gwleidyddol cynyddol o blaid gwrthod ecsploetio'r ucheldiroedd.
- Nid oedd Mr Wright yn cytuno â phenderfyniad Cyngor Sir Ceredigion i gymeradwyo codi gorsaf ber yng Nghefn-Croes. Roedd y penderfyniad yn gwneud cyff gwawd o

ddemocratiaeth leol yn ei farn ef ac anogodd y Cynulliad i gamu i mewn yn y mater.

- Anogodd Mr Wright y Cynulliad hefyd i drafod lle'r tirlun yn niwylliant cenedlaethol Cymru.

Dr Lance Mytton, Cadwraeth Ucheldir Maldwyn

Gwnaethpwyd y pwyntiau canlynol yn y cyflwyniad:

- Dros y 18 mis diwethaf mae aelodaeth Cadwraeth Ucheldir Maldwyn wedi tyfu o 50 i ragor na 100 o aelodau.
- Roedd Dr Mytton yn pryderu yngln â bygythiad parhaus datblygiadau ffermydd gwynt. Teimlai mai strategaethau gwael yw'r strategaethau ynni adnewyddadwy sy'n bodoli ar hyn o bryd.
- Mae'r ystadegau yn gwrthbrofi'r haeriadau fod ynni gwynt ar y tir yn cyfrannu'n sylweddol tuag at anghenion ynni'r genedl.
- Mae angen i economi defnydd tir y Canolbarth symud o'i ddibyniaeth bresennol ar werth isel i fentrau uchel eu gwerth.
- Mae datblygiad hirdymor ynni gwynt yn anghydnaws â datblygu a hyrwyddo diwydiant twristiaeth y Canolbarth.

Mr Jon Isherwood, Grp Ynni Cynaliadwy y Cynulliad Cenedlaethol

Gwnaethpwyd y pwyntiau canlynol yn y cyflwyniad:

- Nodau'r Grp Ynni Cynaliadwy yw codi ymwybyddiaeth a chynyddu'r deialog yngln ag ynni adnewyddadwy; cynorthwyo i ddatblygu polisi a strategaeth ar ynni cynaliadwy; a chynyddu'r cyfleoedd a'r potensial ar gyfer ynni cynaliadwy i'r eithaf.
- Mae ei aelodaeth eang yn cynnwys cynrychiolwyr o awdurdodau lleol, prifysgolion, penseiri a diwydianwyr, tra bo'i noddwyr craidd yn cynnwys y Cynulliad Cenedlaethol, Powergen, Dulas Cyf, Dr Cymru a National Wind Power.
- Mae proffwydoliaethau diweddaraf IPC ar y newid yn yr hinsawdd yn dweud bod effaith pobl yn llawer mwy nag a dybiwyd mewn asesiadau blaenorol.
- Mae gan lywodraeth Prydain ymrwymiad cryf i ynni adnewyddadwy yn ei holl ffurfiau ac mae gan y Cynulliad Cenedlaethol gyfrifoldeb statudol dros gynaliadwyedd, ond mae angen ymrwymiad byd-eang er mwyn ymladd y newid yn yr hinsawdd.
- Dengys ystadegau y bu yna gynnydd sylweddol mewn allyriannau carbon deuocsid yng Nghymru rhwng 1991 ac 1995. Mae'r Grp yn ymchwilio i atebion i helpu i ymladd hyn.
- Anogodd Mr Isherwood holl aelodau'r Cynulliad i ddefnyddio'r Grp fel fforwm trafod a gwybodaeth.

Mr Colin Humphrey

Gwnaethpwyd y sylwadau isod yn y cyflwyniad:

- Ynni niwclear yw'r math pwysicaf o ynni adnewyddadwy er bod yn well gan bobl beidio â chydnabod hynny. Daw chwarter trydan y DU o ynni niwclear, a bydd hanner y gweithfeydd wedi cau erbyn 2015. Oni phenderfynwn ni'n fuan i godi gweithfeydd yn eu lle ni fydd unrhyw bosibilrwydd o barhau â'r gostyngiadau mewn allyriannau $CO_2$ o danwydd ffosil wrth gynhyrchu ynni.

- Yng Nghymru, mae cynnyrch gorsaf ber niwclear yr Wylfa ar Ynys Môn yn diwallu bron i 40% o anghenion trydan Cymru. Mae'r Wylfa i fod i weithredu am o leiaf 15 mlynedd arall ond sut mae sefydlu darpariaeth yn ei lle pan ddatgomisiynir yr orsaf, ac eithrio gyda rhagor o niwclear? Â chaniatáu ar gyfer natur ysbeidiol gwynt byddai angen tua 40 o ffermydd gwynt enfawr tebyg i'r un sy'n cael ei chynnig yng Nghefn Croes dim ond i ddisodli'r Wylfa.

- I bob diben ymarferol mae gorsafoedd ynni niwclear yn y Gorllewin yn gwbl ddiogel. Dylem gefnogi ynni niwclear i ddisodli'r gweithfeydd a fydd yn cau cyhyd ag y gellir dangos ei fod yn ddiogel nawr ac i'r dyfodol. Bydd iddo gost uchel, yn enwedig o ran datgomisiynu a gwaredu'n ddiogel ond mae'r gost honno yn un y gallwn ei hysgwyddo. Os gwrthodwn ynni niwclear ni lwyddwn i lunio strategaeth ynni realistig, a byddwn yn parhau i niweidio ein tirlun.

- Dylid mynd ar drywydd atebion ynni adnewyddadwy priodol eraill, ond hyd yma gwynt yw'r unig dechnoleg sydd mewn gwirionedd wedi derbyn llawer o gefnogaeth.

- Dylai'r rhai sy'n llunio polisi fod yn neilltuo cymaint o ymdrech i ffrwyno'r twf yn yr ynni a ddefnyddir ag a wnânt i hyrwyddo'r gallu i gynhyrchu ynni adnewyddadwy ond nid ydynt yn gwneud hynny, felly ni fydd rhaglen ynni adnewyddadwy Cymru hyd yn oed yn cyfateb i'r twf yn y galw am drydan heb sôn am ddechrau disodli tanwydd ffosil.

Diolchodd y Cadeirydd i'r cyflwynwyr am gyfrannu at ddadl hynod fuddiol. Teimlai y byddai pawb yn elwa o gael rhagor o gyfleoedd o'r math hwn.

**<u>Eitem 4: Cofnodion cyfarfod 18 Mai</u>**

**MID-02-01(min)**

Cytunwyd ar y rhain heb newidiadau.

**<u>Eitem 5: Ethol Cadeirydd newydd</u>**

Etholwydd Delyth Evans AC yn Gadeirydd ar gyfer sesiwn 2001/2.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Gorffennaf 2001**